



monmouthshire
sir fynwy

Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir,
Y Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy
NP15 1GA

Monmouthshire County Council
County Hall, Y Rhadyr, Usk, Monmouthshire
NP15 1GA

Ffôn/Tel: 01633 644 644
Web/Gwefan:
www.monmouthshire.gov.uk

Ein Cyf/Our ref:

Dyddiad/Date: 21/09/2020

Annwyl Riant/Gofalydd,

DERBYNIADAU I YSGOLION UWCHRADD - MEDI 2021

Nodwn o'n cofnodion y bydd eich plentyn yn gymwys i drosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd ym mis Medi 2021. Er mwyn sicrhau lle i'ch plentyn yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi 2021, mae'n ofynnol i chi wneud cais sy'n rhoi manylion am yr ysgolion uwchradd a ffafrir i'ch plentyn.

Sut gallaf wneud cais?

Rhaid i geisiadau gael eu cwblhau gan yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn dan sylw.

Mae gan Gyngor Sir Fynwy [system ar-lein i ymgeisio ar gyfer derbyniadau](#), sydd ar gael i chi ei defnyddio wrth wneud cais eich plentyn. Mae'r system yn eich galluogi i weld a diwygio cais eich plentyn hyd at y dyddiad cau, sef **25ain Tachwedd 2020 am 12 hanner nos**.

Oherwydd yr achosion o glefyd y coronafeirws a'r cyfyngiadau sydd ar waith ar hyn o bryd, byddem yn eich annog i ddefnyddio'r system ar-lein. Fodd bynnag, os nad yw hwn yn opsiwn gallwch gwblhau'r ffurflen gais bapur fel yr opsiwn olaf. Cysylltwch â ni ar y rhif ffôn neu'r cyfeiriad e-bost ar waelod y dudalen i drafod hyn ymhellach.

Proses Ymgeisio

Cyn gwneud eich cais, cymerwch beth amser i astudio'r "[Llyfryn Dechrau Ysgol 2021-22](#)" sy'n cynnwys yr holl wybodaeth allweddol mewn perthynas â derbyn eich plentyn i Ysgol Uwchradd. Fe'ch anogir hefyd i astudio'r [nodiadau cyfarwyddyd](#) amgaeedig yn ogystal â'n Polisi Derbyniadau Ysgol 2021/22. Fel arall, gallwch ofyn am gopi o'r Llyfryn Dechrau Ysgol 2021/2022 gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar waelod y llythyr hwn.

Mae'r Cod Ymarfer Derbyn i Ysgolion yn rhoi'r hawl i rieni fynegi dewis i'w plentyn gael ei dderbyn i unrhyw ysgol a gynhelir o gronfeydd cyhoeddus. Fe'ch gwahoddir i fynegi hyd at dri dewis, a fydd yn cael eu hystyried yn gyfartal ac yn unol â meini prawf yr awdurdod ar gyfer gorau. Os bydd un neu fwy o'ch dewisiadau'n gallu cael eu bodloni, byddwn yn rhoi'r dewis gorau, fel y nodir ar eich ffurflen gais. **Rydym yn eich cynghori'n gryf i gynnwys mwy nag un dewis ar eich cais gan y byddwch dan anfantais dros geisiadau eraill os na fyddwch yn gwneud hynny.** Am fanylion Ysgolion Uwchradd Sir Fynwy, trowch at y Llyfryn Dechrau Ysgol 2021/2022.

Erbyn pryd mae angen i mi gwblhau fy nghais?

Mae'r broses ymgeisio ar agor nawr; mae'n **rhaid** i chi gyflwyno eich cais i ni **cyn** y dyddiad cau, sef y **25ain Tachwedd 2020 am 12 hanner nos**.

Os nad ydych yn gwneud cais erbyn y dyddiad cau hwn, bydd eich cais yn cael ei nodi fel un hwyr. Mae hyn yn golygu y bydd pob cais a gyflwynir ynghyd â dogfennaeth ategol erbyn **hanner nos ar 25ain Tachwedd 2020** yn cael ei drin yn gyntaf, a allai arwain at yr holl leoedd sydd ar gael yn yr ysgol o'ch dewis chi'n cael eu dyrannu cyn y gall eich cais gael ei ystyried.

Sut ydw i'n gwybod os ydych chi wedi derbyn fy ffurflen gais gorffenedig?

Bydd pob cais a gyflwynir gan ddefnyddio'r system ymgeisio ar-lein yn derbyn cydnabyddiaeth awtomatig i'ch cyfrif e-bost dewisol, gan gadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais yn iawn. I'r rhai sy'n dewis cwblhau a dychwelyd ffurflen gais ar bapur, byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth o fewn 7 diwrnod gwaith i ni ei derbyn. Os ydych chi wedi cyflwyno cais ond heb dderbyn llythyr cydnabod oddi wrthym o fewn yr amserlen hon, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. ***Dylech fod yn ymwybodol mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich cais yn cyrraedd yr Uned Fynediad o fewn y terfynau amser angenrheidiol.***

Pryd y byddaf yn cael gwybod a yw fy mhlentyn wedi cael lle yn fy newis ysgol?

Bydd rhieni'n cael gwybod am ganlyniad eu ceisiadau trwy lythyr erbyn **1af Mawrth 2021**.

Proses ymgeisio i fynychu Ysgol tu allan i Sir Fynwy

Os ydych chi yn dymuno gwneud cais i'ch plentyn fynychu ysgol y tu allan i Sir Fynwy, mae'n rhaid i chi barhau i wneud cais i awdurdod lleol Sir Fynwy, naill ai drwy ddefnyddio'r system ymgeisio ar-lein neu fel arall drwy ofyn am ffurflen gais. Byddwn wedyn yn cysylltu â'r awdurdod perthnasol ynghylch y dewis hwn.

Pwysiq: Os dymunwch i'ch plentyn fynychu ysgol sydd o fewn awdurdod lleol Casnewydd, maent yn gofyn i chi wneud cais yn uniongyrchol i'w Dîm Derbyn i Ysgolion. A fydddechystal â chysylltu â nhw'n uniongyrchol i ofyn am becyn cais. ***Rydym yn eich cyngori'n gryf i gwblhau a dychwelyd cais Sir Fynwy i roi gwybod i ni beth yw eich dewis ar gyfer Ysgol yng Nghasnewydd, a chynnwys unrhyw ysgolion eraill (yn nhrefn eu blaenoriaeth) yr hoffech i ni eu hystyried.***

Yn yr un modd, os ydych chi yn dymuno gwneud cais am le mewn **Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr/Annibynnol**, bydd angen i chi wneud cais yn uniongyrchol i'r ysgol honno. Fodd bynnag, rydym yn eich annog hefyd i gwblhau ffurflen gais Sir Fynwy gyda manylion eich dewisiadau ysgol amgen.

Hyderaf y bydd y wybodaeth sydd yn y pecyn cais ynghyd â'r wybodaeth ar ein gwefan yn ddefnyddiol iawn wrth ddewis eich Ysgol Uwchradd; fodd bynnag, os bydd angen unrhyw gymorth pellach arnoch, cysylltwch ag aelod o'r Uned Fynediad.

Yr eiddoch yn gywir,



**Matthew Jones,
Rheolwr yr Uned Fynediad**



Direct Line/Llinell Uniongyrchol: 01633 644508
Email/Ebost: accesstolearning@monmouthshire.gov.uk

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu yn y ddwy iaith a byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

The Council welcomes correspondence in English or Welsh or both,
and will respond to you according to your preference.
Corresponding in Welsh will not lead to delay.